# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL

## PENNOD 4

COSBAU O DAN Y DDEDDF HON

*Cosbau sy'n ymwneud â chofrestru*

### 67 Asesu cosbau o dan adrannau 64 a 66

(1) Pan ddaw person yn agored i gosb o dan adran 64 neu 66, rhaid i ACC—

(a) asesu'r gosb, a

(b) dyroddi hysbysiad i'r person am y gosb a aseswyd.

(2) Rhaid i asesiad o gosb o dan adran 64(1) neu 66 gael ei wneud o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n ddechrau â'r diwrnod y daeth ACC i gredu yn gyntaf fod y person yn agored i'r gosb.

(3) Rhaid gwneud asesiad o gosb o dan adran 64(2) o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau a'r diwrnod y mae'r gosb yn ymwneud ag ef.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 67 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 67 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(u)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 67.